

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Ddinbych 2020

Beirniadaeth Cystadleuaeth 378

Rhyddiaith BI 8 – Ar y Sgrin

Beirniad - Angharad Rhys

Daeth 71 ymgais i law ac roedd y safon yn dderbyniol iawn, er braidd yn undonog. O roi testun fel “Ar y Sgrîn” straeon am ffonau symudol, bwlio ar lein, bod yn gaeth i gemau cyfrifiadurol a chael eu sugno i mewn i grombil gêm oedd gan y mwyafrif! Nifer fechan a gyflwynodd waith mewn llawysgrifen gan mai ar sgrîn y gwneir gwaith gan amlaf bellach. Roedd mân wallau treiglo a chystrawen wrth gwrs ac ambell i ^ ar goll hwnt ac yma ond does dim esgus am ‘l ynghanol gwaith Cymraeg! Dylai pob cystadleuydd ddal ati i fireinio’i sgiliau ysgrifennu a meddwl y tu allan i’r (X) bocs!

Ar y darlleniad cyntaf cefais flas ar ddarllen gwaith GLYN, HAFWEN, MELLTEN, MWDDRWG, ARIANRHOD, BEDO CLWYD, CAPTAIN, DONNA DIREIDI a SEREN WIB HYWEL ond roedd mwy o sglein ar y pump olaf. O’r pump yna y tri sy’n dod i’r brig yw ARIANRHOD, CAPTAIN a SEREN WIB HYWEL.

Mae stori ARIANRHOD yn gynnil ac yn sôn am deulu sy’n pacio llwyth o declynnau i fynd ar wyliau i Tenerife ond drwy beidio cadw llygad ar y ffordd, mae damwain yn digwydd. Damwain sydd gan SEREN WIB HYWEL hefyd a datgelir y stori drwy lygaid tri chymeriad gwahanol. Mae llawer o sgriniau gwahanol yn y stori aeddfed ond dywyll hon a’r cwbl yn plethu’n gelfydd iawn. Stori llawer ysgafnach na’r ddwy arall sydd gan CAPTAIN, am Arthur ddi-nod yn cael bod yn seren ar y sgrîn fawr. Llongyfarchiadau i’r tri ohonoch a daliwch ati i greu.

1af SEREN WIB HYWEL

2il ARIANRHOD

3ydd CAPTAIN